# Ysgol Gwaelod y Garth

## Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni 2022-23



www.gwaelodygarth.co.uk
@gwaelod

# Dyddiadau 2023-24

| TYMOR | DECHRAU | DECHRAU HANNER TYMOR | DIWEDD HANNER TYMOR | DIWEDD Y TYMOR |
|---|---|---|---|---|
| Tymor yr Hydref | Dydd Llun Medi 4 2023 | Dydd Llun Hydref 30 2023 | Dydd Gwener Tachwedd 3 2023 | Dydd Gwener Rhagfyr 22 2023 |
| Tymor y Gwanwyn | Dydd Llun Ionawr 8 2024 | Dydd Llun Chwefror 12 2024 | Dydd Gwener Chwefror 16 2024 | Dydd Gwener Mawrth 22 2024 |
| Tymor yr Haf | Dydd Llun Ebrill 8 2024 | Dydd Llun Mai 27 2024 | Dydd Gwener Mai 31 2024 | Dydd Llun Gorffennaf 22 2024 |

**BYDD YR YSGOL AR GAU AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:**

- Dydd Llun Medi 4 2023
- Dydd Llun Ionawr 8 2023
- Dydd Gwener Chwefror 9 2024
- Dydd Llun, Ebrill 8 2024
- Dydd Gwener Mai 24 2024
- Dydd Llun Gorffennaf 22 2024



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pennaeth | 4 |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | 5 |
| Aelodau'r Bwrdd Llywodraethol | 6 |
| Adroddiad Cyllideb | 8 |
| Prosbectws | 9 |
| Estyn | 9 |
| Cynnydd yn erbyn y Cynllun ôl-arolwg 2022-23 | 10 |
| Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2022-23 | 12 |
| Cysylltiadau cymunedol ac ymwelwyr | 13 |
| Gweithgareddau Chwaraeon | 14 |
| Ysgolion Iach a Chyfleusterau | 15 |
| Manylion Rhoddion i Elusennau | 16 |
| Pontio | 17 |
| Datblygiadau'r Ysgol 2022-23 | 18 |
| Polisiau | 22 |
| Staff yr ysgol 2022-23 | 23 |
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus | 26 |
| Datblygiadau i rieni | 27 |
| Ieithoedd | 28 |
| Dysgu ac Addysgu 2022-23 | 28 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 30 |
| Iechyd a Dioglewch | 31 |
| 2023-24 | 32 |


**Ysgol Gwaelod y Garth**
Main Road, Gwaelod y Garth
Caerdydd, CF159HJ

ysgolgwaelodygarth@caerdydd.gov.uk
@gwaelod

# Pennaeth

**Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad blynyddol. Unwaith eto, eleni, hoffwn ddiolch i'r gymuned ysgol arbennig sydd gennym am eu cefnogaeth a'u hymroddiad.**

Rwy'n falch o'n gallu fel ysgol i gydweithio a gwynebu pob her gydag egni a brwdfrydedd. Mae ein llwyddiannau eleni yn dangos bod yr ysgol yn mynd o nerth i nerth.Maen nhw'n cynnwys datblygu ein stryd STEM, sefydlu ein Bws Beic, a chydweithio gyda Llywodraeth Cymru, CSC, SIG 22, a'n clwstwr ar brosiectau ysgol.Cawsom hefyd flwyddyn lwyddiannus iawn yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ac rydym yn ddiolchgar i'r staff ac i chi fel rhieni am eich cefnogaeth.

Mae cymuned yr ysgol yn rhan annatod ac unigryw o ethos Gwaelod y Garth a chyfoethogir addysg trwy bartneriaeth lwyddiannus rhwng y cartref, yr ysgol, a'r gymuned leol Mae Gwaelod y Garth yn un gymuned ac mae'r ysgol yn undeb llwyddiannus o gymdeithas ddwyieithog sy'n rhywbeth I'w ddathlu.Mae gennym dîm hynod ymroddedig yng Ngwaelod y Garth ac mae'r cydweithio unigryw rhwng disgyblion, staff a llywodraethwyr yn dyst i'r elfen gref o undod sydd yn amlwg yn ein hysgol.

Yn ddiffuant,
**Catrin Evans**



# Cadeirydd y Llywodraethwyr

**Pleser yw cyflwyno adroddiad y llywodraethwyr i chi ar gyfer 2022-23. Mae hi wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus a chyffrous arall i'r ysgol.**

Llwyddwyd i gael cabanau newydd dros dro ar gyfer 3 dosbarth tra bod y Cyngor yn gweithio ar estyniad parhaol. Mae hyn yn ddatblygiad cyffrous iawn ac edrychwn ymlaen at weld y cyngor yn cwblhau'r gwaith cyn gynted â phosib.

Mae'r ysgol wedi parhau i adeiladu ar yr amrywiaeth eang o gyfleodd mae nhw'n eu cynnig i'r plant a braf oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn gwneud cystal yn Eisteddfod yn Urdd. Roedd gweld y Gân Actol yn cyrraedd y Genedlaethol a chymaint o blant yr Ysgol ar y llwyfan yn uchafbwynt arbennig. Llongyfarchiadau i chi gyd!

Hoffwn ddiolch i Mrs Evans am ei holl waith yn sicrhau fod yr ysgol yn mynd o nerth i nerth ac i'r staff am ei hymrwymiad di-flino i'r plant a'r ysgol. Diolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth ac i'r Llywodraethwyr am eu hymroddiad parhaus.

Yn ddiffuant,
**Rhian Jardine**
**Cadeirydd y Llywodraethwyr**



# Aelodau'r Bwrdd Llywodraethol

**Mae aelodau'r Bwrdd Llywodraethol yn adlewyrchu trawstoriad o'r gymuned leol.**

Mae'r Cadeirydd a'r is-gadeirydd yn cael eu hethol ar ddechrau bob blwyddyn academaidd newydd. Yn dilyn rheolau Rheoli Ysgolion Lleol mae gan y Bwrdd Llywodraethol gyfrifoldebau sy'n debyg i Fwrdd Cyfarwyddwyr ym myd busnes. Maent hefyd yn ddolen gyswllt rhwng y rhieni a'r ysgol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethol yn cyfarfod unwaith bob tymor. Mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w drafod gan y Bwrdd Llywodraethol. Mae'r adroddiadau yma'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio ag ati. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cwrdd bob tymor a'r pwyllgorau eraill yn cwrdd yn ystod y flwyddyn. Gellir cysylltu â'r Cadeirydd a'r Clerc drwy lythyr i'r ysgol. Ni thelir unrhyw dreuliau i unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethol.

### Ethol i'r Bwrdd Llywodraethol

O bryd i'w gilydd bydd angen ethol rhieni i'r Bwrdd Llywodraethol ac mae gwybodaeth am drefniadau ethol rhiant-lywodraethwyr yn cael eu hanfon at bob rhiant/ofalwr.



**Cymuned**
Rhian Jardine (Cadeirydd)
Ian Jones
Non Gwilym
Huw Jones

**Cynrychiolwyr yr A.A.Lleol**
Sara Brown (Is-gadeirydd)
Rachel Garside
Rhys James

**Pennaeth**
Catrin Evans

**Rhieni**
Rosanna Glyn
Huw Darch
Dona Lewis
Simon Roberts

**Athrawon**
Owain Jones

**Staff**
Wendy Owen

**Clerc i'r Llywodraethwyr**
Sally Golding

**Manylion cyswllt**

**Mrs Rhian Jardine**
Gwaelod y Garth School,
Main Road, Gwaelod y Garth
Cardiff CF159HJ

029 2081 0489

**Mrs Sally Golding**
sally.golding2@cardiff.gov.uk


# Adroddiad Cyllideb

**CRYNODEB**

| **CYFANSWM ADNODDAU AR GAEL YN 2022-23** | **£** |
|---|---|
| Balansau ysgol a ddygwyd ymlaen o 2021-2022 | 165,560.13 |
| Benthyciadau Ysgol a Ddygwyd ymlaen o 2021-2022 | – |
| Cyn Addasiad Blwyddyn | – |
| Cyfanswm adnoddau dirprwyedig | 1,026,980 |
| **Cyfanswm** | **1,192,540.13** |
| Gwariant Cyflawnedig | 1,141,539.10 |
| Llai'r newid mewn buddsoddiadau | – |
| Llai'r Symudiadau â Benthyciadau Dros Dro | – |
| Llai'r amrywiant â chyfraddau a glustnodir | – |
| **CYFANSWM BALANS A DDYGWYD YMLAEN I 2023-24** | **51,001.03** |

**Datganiad Balansau**

| | |
|---|---|
| Balans na fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2023 | 51,001.13 |
| Balans a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2023 | – |
| Benthyciadau dros ben ar 31 Mawrth 2023 | – |
| **Cyfanswm Balansau ar 31 Mawrth 2023** | **51,001.13** |





# Prosbectws

**Rhoddir Prosbectws i rieni pan ddaw disgyblion i'r ysgol gyntaf. Mae holl bolisïau'r ysgol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn ymgynghoriadau rhwng staff a llywodraethwyr.**

## Newidiadau i'r Prosbectws


Mae'r prosbectws wedi ei ddiweddaru i gynnwys manylion staffio newydd yr ysgol.

# Estyn

## Arolwg Estyn 2019

### Argymhellion

1. Sicrhau bod disgwyliadau'r holl athrawon yn galluogi pob un o'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.
2. Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion y cyfnod sylfaen wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu er mwyn datblygu fel dysgwyr annibynnol.
3. Codi safon medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu(TGCh) disgyblion.



# Cynnydd yn erbyn y Cynllun ôl-arolwg 2022-23

Dyddiad Arolwg Diwethaf: **Rhagfyr 2019**

Perfformiad Cyfredol: **Cynydd da/ rhagorol**

Gallu i Wella: **Rhagorol**

| ARGYMHELLION | CAMAU GWEITHREDU 2021-22 |
|---|---|
| **Sicrhau bod disgwyliadau'r holl athrawon yn galluogi pob un o'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.** | Sicrhau cysondeb a dilyniant - staff i greu adnoddau ar gyfer yr ardaloedd allanol sy'n flaengar ac yn caniatáu datblygiad systematig o fedrau creadigol y disgyblion. |
| | Cefnogi cynnydd a datblygiad disgyblion fel dysgwyr annibynnol trwy ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu.<br>Parhau i weithredu polisi marcio ysgol gyfan ar gyfer asesu effeithiol a gweithredu strategaeth adborth llafar dosbarth cyfan. |
| | Defnyddio cyfraniadau disgyblion i wella agweddau ar addysgu. Y pwyllgor Dysgu Difyr i arsylwi addysgu a dysgu a chynnal teithiau dysgu. |
| | Cwlwm Dysgu (grŵp o dri athro) i gynnal arsylwadau gwersi gan ganolbwyntio ar y 12 egwyddor. Targedau rheoli perfformiad staff yn gysylltiedig â'r egwyddorion addysgeg. |
| | Datblygu ymhellach darpariaeth dysgu ymchwiliol yr ysgol. Sicrhau bod cwestiynau ymchwiliol yn targedu'r dysgu dwys yn cael eu cynnwys yn y cynllunio pythefnosol. |
| | Datblygu model asesu yn seiliedig ar y dilyniant a fynegir yn ein strategaeth Her Cwricwlwm i Bawb. |
| | Datblygu ymhellach ein Cymuned Ddysgu Broffesiynol i werthuso effaith her ar ddysgwyr.<br>Sicrhau bod disgwyliadau uchel gennym ar gyfer pob disgybl, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. |



| ARGYMHELLION | CAMAU GWEITHREDU 2021-22 |
|---|---|
| **Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion y cyfnod sylfaen wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu er mwyn datblygu fel dysgwyr annibynnol.** | Datblygu ymellach ystafelloedd dosbarth awyr agored yn defnyddio'r model Chwilfrydedd Chwarae. |
| | Sicrhau cysondeb a dilyniant – staff i greu adnoddau ar gyfer yr ardaloedd allanol sy'n flaengar ac yn caniatáu datblygiad systematig o fedrau creadigol y disgyblion. |
| | Creu Asesiadau Personol, ac Asesiadau Lles er mwyn hyrwyddo lles dysgwyr trwy brosesau a gweithdrefnau asesu. |
| | Hyrwyddo dulliau cydweithredol o ddysgu proffesiynol a rhannu arferion da drwy ein model Cwlwm Dysgu broffesiynol gyda ffocws penodol ar feddylfryd twf a gwahaniaethu. |
| | Canolbwyntio ar fodelu byw fel arf gwahaniaethol i wneud dysgu yn hygyrch i bawb ac i annog dysgu annibynnol. |
| | Parhau i wreiddio "Her i Bawb" a defnyddio data fel sbardun ar gyfer gwelliant ac i werthuso effaith y dysgu. |
| | Datblygu systemau a phrosesau datblygu ar gyfer addysgu a strategaeth dysgu creadigol Llythrennedd ar draws y cyfnod sylfaen yn unol â Chwricwlwm i Gymru. |
| **Codi safon medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion.** | Datblygu offeryn olrhain Dysgu Digidol a chreu rhaglen disgybl dysgu digidol pwrpasol sy'n targedu'r sgiliau uwch ac yn atgyfnerthu dealltwriaeth a her |
| | Cynllunio, gweithredu a gwerthuso "tasgau cyfoethog" yn seiliedig ar y Fframwaith Cymhwysedd Digidol. |
| | Parhau i weithredu ein system olrhain DCF gan sicrhau defnydd cadarn o ddata i gau bylchau cyrhaeddiad ac ysgogi gwelliant. |
| | Cynllunio a mapio profiadau dysgu cyfoethog medddwl cyfrifiadurol bob hanner tymor. Alinio gyda'r cwricwlwm newydd a chymhwyso ar draws y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad. |
| | Datblygu ymhellach rôl y Dewiniaid Digidol i gynhyrchu pecyn cymorth digidol STEM integredig. |
| | Anelu i gael gwobr PSQM STEM. |
| | Datblygu ymhellach ein darpariaeth STEM gan sicrhau bod prosiectau trawsgwricwlaidd yn cael eu mapio'n glir. |
| | Cymhwyso'r medrau TGCh a STEM a sefydlu prosiect "Ffair STEM" i rieni a'r gymuned leol. |
| | Datblygu ymhellach strategaeth Her Dysgu Digidol GYG. Creu pecynnau her yn seileidig ar sgiliau Meddwl Cyfrifiadureg sy'n targedu'r uwch uwch ac yn atgyfnerthu dealltwriaeth ac uchelgais. |

# Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol 2022-23

## Blaenoriaeth 1:

**Adeiladu a datblygu gallu arweinyddiaeth yr ysgol a sicrhau bod arweinyddiaeth gref wedi'i hategu gan Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.**

## Blaenoriaeth 3:

**Datblygu ein dealltwriaeth o'r cwricwlwm i sicrhau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel.**

## Blaenoriaeth 2:

**Dyfnhau  ein dealltwriaeth a'n defnydd o'r 12 egwyddor er mwyn cefnogi plant i wneud cynnydd.**

## Blaenoriaeth 4:

**Sicrhau tegwch i bob disgybl drwy addasu'r addysgu, darpariaeth a chymorth i ddiwallu eu hanghenion a pharhau i ddatblygu ein hymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol.**



# Cysylltiadau cymunedol ac ymwelwyr

- Gwasanaethau gan Mr Adam Coleman
- Ymweliadau gan y Gwasanaeth tân
- Diwrnod Plant mewn Angen
- Gweithdy Crucial Crew
- Diwrnod y Llyfr
- Disgyblion profiad gwaith o Ysgol Plasmawr
- Gwersi Ysgol y Goedwig
- Gwasanaeth Coffa'r Lan
- Cwrs seiclo i Flwyddyn 6
- Jambori yr Urdd
- Cystadlaethau pêl droed, rygbi, pêl rwyd, criced yr Urdd
- Sioe Cyw Cyfnod Sylfaen
- Ffair Lyfrau Scholastic
- Gwersi Sbaeneg
- Nifer o weithgareddau ysgol i godi arian i elusennau, yn cynnwys Sport Relief, Macmillan a Felindre
- Cafodd pob plentyn gyfle i berfformio yn Eisteddfod yr Urdd
- Disgyblion yn cymryd rhan yn Her Darllen yr Haf gyda Llyfrgelloedd Caerdydd.
- Sioe Mewn Cymeriad
- Ymweliad i Mountain View Ranch
- Eisteddfod Ysgol
- Ymweliadau preswyl i Maes y Fron a Llangrannog
- Pencampwriaeth Pêl droed yr Urdd – Gerddi Sofia
- Merched y Wawr yn dysgu sgiliau gwnïo, gweu a coginio i'r disgyblion.
- Gwersi offerynnol ffliwt, gitar, pres, ukuelue, telyn, soddgrwth
- Gweithdai Sain Ffagan
- Cystadleuaeth Cwis Llyfrau
- CAKUn – gweithdai'r pod STEM
- Gweithdy Senedd Ieuenctid Cymru
- Gweithdai criced
- Do Re Mi Sioe Cyfnod Sylfaen
- Heriau Hud Sioe Cyfnod Allweddol 2



# Gweithgareddau Chwaraeon

- Clwb gymnasteg yr Urdd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen
- Gweithdai criced
- Gwersi seiclo i Flwyddyn 6
- Cystadleuaeth traws gwlad yr Urdd
- Cystadleuaeth pêl droed bechgyn yr Urdd
- Cystadleuaeth pêl droed merched yr Urdd
- Cystadleuaeth gymnasteg y Sir
- Cystadleuaeth Urdd Tag y Sir
- Cystadleuaeth pêl rwyd y Sir
- Cystadleuaeth gymnasteg y Sir
- Cystadleuaeth criced yr Urdd
- Gwersi rygbi'r Urdd 5C/6C/2E
- Cystadleuaeth pêl droed Caerdydd a'r Fro
- Cystadleuaeth rygbi'r Urdd bechgyn a merched
- Mabolgampau ysgol gyfan ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd Cyncoed



# Ysgolion Iach a Chyfleusterau

## Ysgolion Iach

Mae Addysg Iechyd yn rhan sylweddol ac annatod o'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth a dealltwriaeth eang o faterion iechyd ac yn datblygu'r sgiliau a'r agweddau priodol sy'n arwain at ffordd o fyw cyfrifol ac iach.

Mae'r ysgol wedi cwblhau'r gwaith ar gyfer y wobr Ansawdd Cenedlaethol Ysgolion Iach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta'n iach, mae plant yn y Cyfnod Sylfaen yn cael darn o ffrwyth yn ddyddiol ac yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Yng Nghyfnod Allweddol 2, anogir disgyblion i ddod â ffrwythau i'r ysgol yn ddyddiol i'w bwyta yn ystod amser chwarae.

Anogir pob plentyn hefyd i ddod â photel o ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol. Mae disgyblion yn cael eu hannog i yfed dwr yn rheolaidd yn ystod y dydd.

Mae'r ysgol wedi cymryd rhan yn y prosiect "Bocsys Cinio Iach" ac mae'r disgyblion wedi paratoi cyflwyniadau sy'n rhoi gwybodaeth i rieni a disgyblion am fwyta'n iach.

Addysgir Addysg Rhyw ac addysg Camddefnyddio Sylweddau o fewn fframwaith rhaglen addysg iechyd yr ysgol.

**Wythnosau Iach 2022-23**

- **Wythnos cerdded i'r ysgol**
- **Wythnos Wrth -fwlio**
- **Wythnos Diogelwch ar y We**
- **Wythnos Sylweddau Iach ac Afiach**
- **Wythnos Addysg Bersonol a Chymdeithasol**

Bu'r wythnosau yma, sy'n seiliedig ar weithgareddau a gwybodaeth ar sut i gadw'n iach, yn llwyddiant unwaith eto. Gwahoddwyd nifer o asiantaethau allanol ac ymwelwyr i'r ysgol i rannu profiadau personol a gwybodaeth am eu gwaith.

**Cyfleusterau Toiledau**

Mae gan yr ysgol gyfleusterau toiledau gofynnol ar gyfer disgyblion mewn ysgol o'i maint. Caiff y cyfleusterau eu glanhau ar ddiwedd ac ar ddechrau'r dydd ac yn ystod amser cinio. Mae gan yr ysgol bolisi Toiledau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol.

# Manylion Rhoddion i Elusennau

| | |
|---|---|
| **BBC Plant Mewn Angen** | £365 |
| **Heart Heroes** | £836 |
| **Gwisgo Coch i Felindre Rhagfyr** | £134 |
| **Marie Curie** | £68.29 |
| Gwisgo Coch i Felindre Chwefror | £201.50 |



# Pontio

**Yn ystod 2022-23 trosglwyddodd disgyblion Gwaelod y Garth i bedair ysgol uwchradd wahanol.**

Trosglwyddodd y plant o'r Uned Saesneg i Radyr, ac Ysgol Uwchradd St Cenydd. Trosglwyddodd y plant o'r Uned Gymraeg i Ysgol Plasmawr ac Ysgol Garth Olwg.. Cynhaliwyd gwersi Ffrangeg ac fe'u trefnwyd fel rhan o drefniadau pontio Plasmawr.

DISGYBLION BLWYDDYN 6:
**31 (CYMRAEG A SAESNEG)**

| | |
|---|---|
| **Ysgol Uwchradd St Cenydd** | 1 |
| **Ysgol Gyfun Plasmawr** | 23 |
| **Ysgol Garth Olwg** | 2 |
| **Ysgol Uwchradd Radyr** | 7 |

# Datblygiadau'r Ysgol 2022-23

**Eisteddfod yr Urdd**

Cawsom flwyddyn lwyddiannus iawn yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Bu ein grŵp dawnsio Hip Hop , Alaw Gwilym a'r Gân Actol yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Llanymddyfri. Enillodd Osian Jardine yr unawd pres B6 ac iau yn yr Eisteddfod Genedlaethol a daeth Annest Jones yn drydydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol am ysgrifennu stori.

**Senedd Llais**

Mae gennym senedd ysgol o'r enw "Llais" sy'n cynnwys y Cyngor Ysgol a chwe phwyllgor dysgwyr o Gam Cynnydd 2 a 3. Mae'r disgyblion yn rhan strategol o lunio a gweithredu gweledigaeth ein hysgol. Mae rhestr o bwyllgorau, enghraifft o gynllun strategol y pwyllgorau, ac enghraifft o brosiectau'r senedd i'w gweld ar ein gwefan.

Dyma flaenoriaethau'r senedd:

- Gwneud penderfyniadau ysgol gyfan wrth drefnu pleidleisiau i hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yng nghyd-destun y pedwar diben.
- Creu cynlluniau strategol sy'n nodi blaenoriaethau'r pwyllgorau am y flwyddyn.
- Mesur effaith y gwaith o ran ein gweledigaeth a dewis dull o fesur effaith yn yr ysgol.
- Cyfrannu at bolisïau ysgol gyfan, cyfrannu at uwch dîm/staff a gyfarfodydd llywodraethwyr.
- Cydgysylltu â'r holl randdeiliaid i hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol a'r pedwar diben yn y gymuned ehangach.



**Pwyllgorau llais disgyblion y Senedd 2022-23**

**Dewiniaid Digidol**
Eleni mae'r Dewiniaid Digidol wedi bod yn rhan o waith monitro dysgu digidol yr ysgol trwy wrando ar ddysgwyr a chynnal teithiau dysgu. Er mwyn cyflwyno strategaethau digidol i'r disgyblion a staff, mae'r Dewiniaid Digidol wedi cynhyrchu fideos a chyflwyniadau digidol. Maent wedi paratoi ac arwain gwersi byw yn ystod ein sesiynau Dathlu Dysgu.

**Llysgenhadon Lles**
Mae'r Llysgenhadon Lles wedi bod yn gweithio tuag at ein cydnabyddiaeth fel "Ysgol sy'n Parchu Hawliau". Mae hon yn wobr a roddir i ysgolion ar ran UNICEF. Bydd y wobr 'Ysgol sy'n Parchu Hawliau' (RRSA) yn helpu ein disgyblion i dyfu'n ddinasyddion ifanc hyderus, gofalgar a chyfrifol yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Maent hefyd wedi bod yn hwyluso sesiynau lles ac yoga. Fe wnaethant baratoi holiadur lles a dadansoddi'r wybodaeth i greu strategaeth lles ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

**Dysgu Difyr**
Mae'r pwyllgor Dysgu Difyr wedi bod yn cynnal teithiau dysgu yn gwerthuso'r addysgu a'r dysgu yn y dosbarthiadau gan ddefnyddio ffurflenni Google i goladu'r wybodaeth. Yna creu taenlenni er mwyn amlygu lle mae TGCh yn fwyaf effeithiol, pa ddosbarthiadau sy'n defnyddio cwestiynu effeithiol, a ble mae'r her fwyaf amlwg. Maent hefyd wedi bod yn archwilio'r rhinweddau sy'n angenrheidiol i fod yn ddysgwr uchelgeisiol.

**Cyngor Eco**
Mae'r cyngor Eco yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae hyn o fudd i'r ysgol gyfan, disgyblion ac athrawon, oherwydd mae'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion gyfathrebu eu teimladau yn ogystal â dylanwadu ar benderfyniadau ysgol gyfan. Rydym wedi derbyn Baner Werdd Ysgolion.

Ein blaenoriaethau eleni oedd:

- Lleihau faint o blastig sydd yn yr ysgol ac rydym wedi cael diwrnod di-blastig.
- Teithio Llesol – annog cerdded i'r ysgol a lleihau nifer y ceir sy'n cyrraedd iard yr ysgol yn ystod amseroedd gollwng a chasglu.

**Dinasyddion y Dyfodol**
Mae Dinasyddion y Dyfodol wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau eleni i godi arian at ein helusen Heart Heroes. Maen nhw wedi cynhyrchu fideos a'u cyflwyno'n rhithiol yn ein sesiynau Dathlu Dysgu. Maent wedi bod yn allweddol wrth gyfrannu at wella'r ysgol, nodi blaenoriaethau'r ysgol, gwneud cysylltiadau â'r gymuned, a datblygu ymwybyddiaeth o faterion byd-eang.

**Dreigiau Doeth**
Mae'r ysgol wedi ennill Gwobr Arian y Siarter Gymreig sy'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cynhaliodd yr ysgol weithgareddau amrywiol trwy gydol y flwyddyn ac yn ystod wythnos Cŵl Cymru, dysgodd y disgyblion am draddodiadau a hanes Cymru. Cynhaliwyd Eisteddfod ysgol lwyddiannus ac mae'r Dreigiau Doeth wedi creu rhestrai chwarae cerddoriaeth Gymraeg, wedi trefnu disgos, sialensiau Cymreig a pharatoi cyflwyniad ar enwogion Cymru.

**Ein Stryd STEM**
Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Redrow i ddylunio ac adeiladu stryd STEM yn yr iard waelod. Dyluniodd y disgyblion y stryd STEM sy'n cynnwys rhes o dai a siop. Bob tymor bydd y tai yn cynnwys darpariaeth STEM newydd y bydd ein disgyblion iau yn cael mynediad annibynnol iddynt.

**Gwerthuso a Gwella**
Fel ysgol rydym wedi cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar yr adnodd hwn. Yna creu ein strategaeth hunanwerthuso bwrpasol ein hunain yn seileidig ar yr egwyddorion gwerthuso a gwella. Bob tymor byddwn yn penderfynu ar y meysydd y byddwn yn eu gwerthuso a'u gwella. Edrychwn ar yr ysgogiadau allweddol yn y maes hwnnw, yna dewis cwestiynau ffocws priodol sy'n sail i'n gwerthusiad. Mae dolenni adnoddau, ar y wefan sy'n darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol a llwyfan ar gyfer cydweithio a rhannu, gan dynnu ar brofiad ac arbenigedd eraill i ymestyn sgiliau proffesiynol neu i fynd i'r afael â meysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Byddwn yn parhau i ymgorffori a datblygu'r prosesau hunanwerthuso hyn y flwyddyn nesaf.

**Ysgol y Goedwig**
Rydym wedi parhau i fwynhau ein dosbarth awyr agored yn y goedwig sydd wedi ei leoli tu ôl i'r ysgol. Mae'r disgyblion yn cael gwersi Ysgol Goedwig yn rheolaidd ac mae pob dosbarth yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau awyr agored.

**Cylch Meithrin y Garth**
Mae'r Cylch Meithrin wedi ei leoli yn Ffynnon Taf ac mae'n cynnig gofal cofleidio i ddisgyblion y dosbarth Meithrin. Byddwn yn cydweithio yn agos fel ysgol gyda staff y Cylch Meithrin er mwyn sicrhau bod gweledigaeth ac egwyddorion yr ysgol yn cael eu gwreiddio yn y Cylch.

**WI**
Mae aelodau o Sefydliad y Merched lleol yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol ac yn gweithio gyda Blwyddyn 5. Maent yn addysgu sgiliau megis gwnïo, gwau, coginio a chydweithio ar brosiectau yn yr ysgol.

**Senedd Ysgolion Cynradd Caerdydd**
Yn dilyn llwyddiant ein senedd ysgol "Llais" yn ysgol Gwaelod y Garth rydym wedi sefydlu senedd i ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd. Y bwriad yw annog annibyniaeth a mentergarwch ein disgyblion a rhoi amryw o gyfleoedd iddynt gydweithio gyda'i gilydd ar brosiectau a strategaethau gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhan weithredol o'r prosiect ac mae holl gyfarfodydd ein senedd "Llais" yn cael eu cynnal yn Nhŷ Siambr Ty Hywel, Bae Caerdydd. Mae 2-4 disgybl o bob ysgol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd tymhorol gydag ysgolion Cymraeg eraill Caerdydd. Maent hefyd wedi trefnu diwrnodau her - "Her Llwybrau Gwyrdd" a diwrnod di-blastig..



**Darpariaeth Lles**

Darperir darpariaeth lles rheolaidd i ddisgyblion. Mae Elsa, Talk about a Play Therapy yn rhaglenni effeithiol rydym yn defnyddio ar gyfer targedu anghenion lles yr holl ddisgyblion.

**Asesu**

Rydym yn asesu cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn academaidd. Bob hanner tymor mae'r asesiadau hyn yn cael eu trafod mewn Cyfarfod Cynnydd ac rydym yn sicrhau fod pob disgybl yn cael ei herio, ei gefnogi'n ddigonol ac yn gwneud cynnydd cyson trwy gydol y flwyddyn.

**Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ac Addysg ar gyfer Datblygiadau Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ESDGC)**

Mae disgyblion wedi bod yn dysgu am wahanol feysydd ac agweddau ar ABCh ac EDSGC fel rhan o weithgaredd dosbarth a gweithgareddau ysgol ehangach. Er enghraifft gwasanaethau SEAL, gwersi Amser Cylch ac Addysg Rhyw sy'n delio â gwahanol agweddau ar les emosiynol disgyblion.

**Cydweithio ag ysgolion**

Eleni rydym wedi cydweithio gyda Consortiwm Canolbarth y De ar Asesu ar gyfer dysgu ac wedi paratoi rhestr chwarae yn seiliedig ar ein gwaith. Rydym wedi arwain sesiynau Datblygiad Proffesiynol Dysgu Digidol a STEM i ysgolion y consortiwm ac wedi cyflwyno ein dulliau o gydweithio mewn cynhadledd i benaethiaid newydd. Rydym wedi cydweithio gyda chlwstwr Radyr a chlwstwr Plasmawr wrth ddatblygu a gwreiddio Cwricwlwm i Gymru.

**Clwstwr Plasmawr a chlwstwr Radyr**
Rydym wedi bod yn cydweithio eleni gyda Plasmawr a'r ysgolion cynradd eraill er mwyn datblygu addysgeg a chwricwlwm i Gymru. Rydym wedi bod yn trafod y chwe maes dysgu a phrofiad ac wedi datblygu prosiectau trawsgwricwlaidd a thasgau cyfoethog yn seiliedig ar y meysydd hyn.

# Polisiau

**Mabwysiadodd y Corff Llywodraethol y polisïau statudol i gyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac adolygwyd yr holl bolisïau Iechyd a Diogelwch.**

Os hoffech weld neu drafod unrhyw bolisi, cysylltwch â Mrs Evans.

**Casgliad Data yn yr ysgol**

Mae'r ysgol yn casglu data gan deuluoedd wrth i blant ddechrau yn y Feithrin. Yn ogystal â hyn mae'n rhaid casglu gwybodaeth yn ôl gofynion yr awdurdod yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn sicrhau bod y data yma yn cael ei gadw'n ddiogel ar systemau cyfrifiadur yr ysgol. Mae gan unigolion yr hawl i weld y wybodaeth sydd yn cael ei gadw yn yr ysgol.

**Cynllun Mynediad i'r Ysgol**

Fel ysgol rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ag addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol.

Rydym yn sicrhau bod pob plentyn ag anabledd yn cael yr un profiadau â phawb arall yn yr ysgol. Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd. Mae gan yr ysgol bolisi a chynllun mynediad.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Yn unol â pholisi'r Sir, rydym wedi creu cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn gwarantu pob agwedd ar gydraddoldeb yn yr ysgol. Os hoffech gael copi o'r polisi hwn, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

**Diogelu Plant**

Y pennaeth yw'r uwch athro dynodedig Diogelu Plant a'r Dirprwy a'r Alenco yw'r athrawon dynodedig Diogelu Plant. Caiff y staff hyfforddiant blynyddol parthed hyn.



# Staff yr ysgol 2022-23

| | |
|---|---|
| **Pennaeth** | Mrs Catrin Evans |
| **Dirprwy Bennaeth ac arweinydd CA2** | Mr Owain Jones |
| **Arweinydd CS ac ALENCo** | Mrs Wendy Owen |
| **Arweinydd Cam Cynnydd 3** | Mrs Helen Davies |
| **Meithrin** | Mrs Buddug Cole |
| **Derbyn** | Miss Elin Evans |
| **1C ac Arweinydd Cam Cynnydd 1 a 2** | Mrs Anwen Ellis |
| **2C** | Miss India Pappas |
| **3C** | Mr Gethin Owen |
| **4C** | Mr Owain Jones |
| **5C** | Mrs Helen Davies |
| **6C** | Mr Geraint Williams |
| **1E** | Miss Alycia Alleyne |
| **2E** | Mrs Sheila Broadley / Miss Claire Maddern |
| **CPA** | Mrs Wendy Owen / Miss Claire Maddern |
| **Cynorthwyydd Meithrin** | Mrs Anne Herbert |
| **Cynorthwyydd Meithrin** | Miss Rebecca Griffiths |
| **Cynorthwyydd Derbyn** | Mrs Rhiannon Jones |
| **Cynorthwyydd 1C** | Miss Posie Haines |
| **Cynorthwyydd 2C** | Mrs Julie Earls / Mrs Lowri Williams |
| **Cynorthwywyr 1E** | Mrs Jane Ashman / Miss Becca Thomas/ |
| **Cynorthwyydd 2E** | Mrs Debbie Thole |
| **Cynorthwyydd CA2** | Mrs Delyth Wade |
| **Cynorthwyydd CA2** | Mrs Delyth Wade/ Miss Rebecca Griffiths |
| **Ysgrifenyddes** | Mrs Sally Golding |
| **Ysgrifenyddes** | Mrs Jan Edwards |
| **Gofalwr** | Mr Alan Ashman |
| **Arolygwyr Amser Cinio** | Mr P Edwards |
| **Arolygwyr Amser Cinio** | Mrs S Potter |
| **Arolygwyr Amser Cinio** | Miss L Simmons |
| **Arolygwyr Amser Cinio** | Miss Sophie Ashmund |
| **Cogyddes** | Mrs T McCarthy |
| **Staff y gegin** | Miss A Miles |
| **Staff y gegin** | Mrs J John |
| **Glanhawyr** | Mrs J John |
| **Glanhawyr** | Miss A Miles |
| **Glanhawyr** | Mrs S Potter |
| **Glanhawyr** | Mr Alan Ashman |

# Cyfanswm y disgyblion – Medi 2022

| UNED GYMRAEG | |
|---|---|
| 6C | **26** |
| 5C | **27** |
| 4C | **26** |
| 3C | **27** |
| 2C | **28** |
| 1C | **18** |
| Derbyn | **30** |

| UNED SAESNEG | |
|---|---|
| 2E | **28** |
| 1E | **12** |

| MEITHRIN | |
|---|---|
| Bore | **10** |
| Prynhawn | **9** |



# Presenoldeb 2022-23

| | % Presenoldeb |
|---|---|
| **Tymor yr Hydref 2022** | 92.85% |
| **Tymor y Gwanwyn 2023** | 93.52% |
| **Tymor yr Haf 2023** | 94.19% |

**Absenoldeb wedi ei awdurdodi** yw pan mae'r ysgol wedi rhoi caniatâd o flaen llaw neu ar ôl cyfnod i ffwrdd o'r ysgol i ddisgybl, ac sydd yn cael ei weld fel rheswm digonol ar gyfer yr absenoldeb.

**Absenoldeb heb ganiatâd** yw unrhyw gyfnod o absenoldeb o'r ysgol oherwydd digwyddiad rhag- fwriadol neu ddigymell gan y disgybl, y rhiant neu'r ddau. Mae hyn yn cynnwys absenoldebau sydd wedi ei ganiatáu gan riant.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Presenoldeb yn arolygu absenoldebau disgyblion a hefyd yn gweithio gydag unrhyw deulu ble mae yna bryderon mewn perthynas â phresenoldeb trwy gynnig cymorth ac arweiniad.

**Hysbysiadau Cosb Benodedig**

Yng Nghymru, mae deddfwriaeth (Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru)2013) wedi rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) i rieni plant a phobl ifanc sy'n absennol o'r ysgol a/neu unedau cyfeirio disgyblion yn gyson, a hynny heb awdurdod.

# Datblygiad Proffesiynol Parhaus

**Y flwyddyn yma mynychodd nifer o'r athrawon a'r cynorthwywyr hyfforddiannau a chyrsiau penodol:**

- Hyfforddiant Cwricwlwm i Gymru
- Diogelu Plant
- Gwerthuso a Gwella
- Hyfforddiant STEM
- Arweinwyr Canol
- ACE's
- Data a thracio
- Thrive
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch
- Cydraddoldeb
- Cymorth Cyntaf
- NQT
- Llais 21
- Google Meet
- PSQM
- Dysgu Digidol
- Hyfforddiant i Benaethiaid Newydd
- Estyn
- ADY
- Y 12 egwyddor
- Hyfforddiant Uwch Gynorthwyydd Dysgu
- Hyfforddiant Cynradd Digidol
- Strategaethau Gweledol
- Asesu ar gyfer dysgu
- Meddwl Cyfrifiadurol

### Rheoli Perfformiad

Mae gweithredoedd Rheoli Perfformiad yr ysgol yn dilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru. Rheoli Perfformiad yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o gytuno ar dargedau perfformiad blynyddol sy'n cynnwys trafodaethau rhwng athrawon a'u harweinwyr tîm a Phrifathrawon a'r Corff Llywodraethol. Mae rheoli perfformiad yn cefnogi gwaith athrawon fel unigolion ac mewn timau. Mae'n sefydlu fframwaith i athrawon a'u harweinwyr tîm gytuno ac adolygu blaenoriaethau ac amcanion yng nghyd-destun cynllun gwella'r ysgol. Mae'n cymell staff i fod yn fwy effeithiol yn eu haddysgu a'u harweiniad pwnc. Mae hyn yn ei dro yn arwain at godi safonau ar gyfer yr ysgol gyfan.

Anogir yr holl staff addysgu i ailedrych ar eu targedau trwy gynllun gweithredu. Cynhelir cyfarfodydd adolygu a chaiff targedau newydd eu nodi a'u trafod ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r holl gynorthwywyr dysgu hefyd yn mynd trwy'r un broses.



# Datblygiadau i rieni

**Rhannodd y Pennaeth wybodaeth â rhieni trwy gylchlythyron digidol wythnosol, llythyrau, e-byst a negeseuon testun. Rhennir gwybodaeth ysgol hefyd ar gyfrif twitter yr ysgol @gwaelod ac mae'n ffordd effeithiol o rannu lluniau a'r profiadau amrywiol y mae disgyblion yn eu cael yn yr ysgol.**

### Cyfarfodydd Rhieni

Trefnwyd llawer o gyfarfodydd i'r rhieni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Gweithdy gwybodaeth ar gyfer pob dosbarth ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
- Dau gyfarfod i rieni gyda'r athro dosbarth i drafod cynnydd.
- Cyfarfodydd Fforwm Rieni yn dymhorol.
- Gweithdai Google Classrooms
- Gweminar – blaenoriaethau'r flwyddyn.
- Gweminar – Dysgu Digidol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryder ynghylch addysg eich plentyn, neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r ysgol, cysylltwch â ni.

### Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae CRhA yr ysgol yn rhoi eu hamser a'u hymdrech i godi arian i gefnogi addysg eich plentyn yma yn ysgol Gwaelod y Garth.

Yn ystod y flwyddyn hon mae'r GRhA wedi talu am:

- Bwyd anifeiliaid ar gyfer y daith i Cefn Mabli
- Cywion bach i'r dosbarth meithrin
- Mabolgampau ym Met Caerdydd
- Rhoddion gadael Blwyddyn 6
- Cit rygbi newydd
- £500 i bob dosbarth
- App Seesaw
- Cwt ieir ac ieir
- Pren ar gyfer y llwyfan, meinciau a bocsys plannu ar yr iard

Mae diolch enfawr yn ddyledus i bawb sy'n ymwneud â'r GRhA ac i bawb am eu rhoddion a'u cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn.

Roedd elw'r Gymdeithas Rieni yn 2022-23 yn £11,000.

# Ieithoedd

**Mae Gwaelod y Garth yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn dwy ffrwd. Mae wyth dosbarth oed sengl yn y ffrwd Gymraeg a dau ddosbarth oedran cymysg yn y ffrwd Saesneg.**

## Datblygiad ieithoedd

**Ffrangeg**
Mae Madame Opkins o ysgol Plasmawr wedi bod yn gweithio pob wythnos gyda disgyblion Blwddyn 6 yn dysgu Ffrangeg i baratoi ar gyfer Plasmawr.

Mae 1.6% o ddisgyblion yr ysgol yn siarad trydedd iaith yn rhugl.

# Dysgu ac Addysgu 2022-23

**Mae ein blaenoriaethau Addysgu a Dysgu eleni wedi cynnwys:**

- Ymgorffori profiadau dysgu proffesiynol, ymchwil ac ymholi i sicrhau bod yr holl staff yn mireinio eu harfer addysgu.
- Cefnogi cynnydd a datblygiad disgyblion fel dysgwyr annibynnol trwy ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu.
- Parhau i weithredu polisi marcio ysgol gyfan ar gyfer asesu effeithiol a gweithredu strategaeth adborth llafar dosbarth cyfan.
- Golygu rhestrau gwirio a modelau a phecynnau cymorth hunanasesu ac asesu cymheiriaid.



- Marcio cau'r bwlch i'w gyflwyno fel rhan o'r polisi, gan lunio dealltwriaeth o gwestiynu priodol ac ysgogiadau i herio disgyblion a'u helpu i wneud cynnydd.
- Modelau asesu cymheiriaid i'w cyflwyno a'u mireinio i gefnogi datblygiad disgyblion wrth ddarparu adborth adeiladol i'w cyfoedion
- Sicrhau datblygiad cynyddol sgiliau disgyblion yn yr ystafell ddosbarth awyr agored. Staff i gwblhau awdit o adnoddau awyr agored y cyfnod sylfaen a chynllunio'n ofalus ar gyfer dilyniant ar draws y ardaloedd darpariaeth gyffredin. Sicrhau cysondeb a dilyniant staff i greu adnoddau ar gyfer y ardaloedd allanol sy'n flaengar ac yn caniatáu datblygiad systematig o fedrau disgyblion.

## Cwricwlwm i Gymru

Mae ein blaenoriaethau cwricwlwm eleni wedi cynnwys:

- Adolygu fel y bo'n briodol ein cwricwlwm Datblygu egwyddorion ac arferion asesu cwricwlwm, a dilyniant i gefnogi dysgu ac addysgu.
- Datblygu model asesu yn seiliedig ar y dilyniant a fynegir yn ein strategaeth her Cwricwlwm i Bawb ac yn ein bwriadau dysgu cynlluniedig.
- Datblygu ein Polisi Asesu i sicrhau bod asesu yn galluogi dilyniant dysgwyr: yn cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd, ac yn ein galluogi i fyfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser.
- Parhau i weithio gydag ysgolion y clwstwr ar ddatblygu a threialu dilyniant ar y cyd mewn er mwyn datblygu disgwyliadau uchel a llwybr dilyniant cydlynol i ddysgwyr.
- Canolbwyntio ar ddilyniant o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) a hwyluso trafodaethau ynghylch dilyniant o fewn a rhwng y camau cynnydd.
- Creu Asesiadau Personol, ac Asesiadau Lles er mwyn hyrwyddo lles dysgwyr trwy brosesau a gweithdrefnau asesu
- Datblygu ymgysylltiad rhieni ymhellach, Creu trefnwyr gwybodaeth ym mhob un o'r MDaPh.
- Sefydlu systemau a phrosesau datblygu ar gyfer addysgu a dysgu creadigol Llythrennedd ar draws y cyfnod cynradd yn unol â Chwricwlwm i Gymru.

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Arbennig yn flaenoriaeth yn Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth. Mae'r cwricwlwm yn eang a chynhwysfawr ac yn cynnig cyfleoedd cyfartal i bawb.**

Mae nifer o blant yn cael addysg anghenion arbennig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae gan rai plant anghenion arbennig penodol, anabledd corfforol neu allu neilltuol (MAT) sydd yn rhaid cael ei ymestyn. Ein nod yw ateb gofynion pob plentyn trwy gynllunio yn ofalus, defnyddio ystod o strategaethau gweledol, clywedol a chinesthetig sy'n galluogi'r dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r Ddeddf ADY yn flaenoriaeth gennym yn yr ysgol nes ein bod wedi sefydlu'r holl brosesau newydd. Rydym yn gweithio'n effeithiol gyda chlwstwr Plasmwr er mwyn sicrhau bod strategaethau cadarn yn eu lle. Mae'r athrawon dosbarth yn sicrhau bod gwaith y dosbarth wedi ei wahaniaethu er mwyn targedu anghenion y disgybl unigol.

Mae Mrs Wendy Owen, ALENCo yr ysgol yn arwain tîm effeithiol o gynorthwywyr dysgu sy'n gweithredu'r ymyraethau canlynol:

- Dyfal Donc
- Language Links
- ELSA (Emotional Literacy Support)
- Talkabout
- Maths Factor
- Speech Links
- Handwriting Motorway
- Rapid Readers



# Iechyd a Dioglewch

**Targedau 2022-23**

- Ystyried effaith strategaethau Dysgu ac Addysgu o ansawdd uchel yn seiliedig ar yr egwyddorion addysgegol ar gyfer disgyblion ADY. Defnyddio ymchwil gweithredu staff i gynllunio'n ofalus strategaethau priodol yn y dosbarth sy'n cryfhau datblygiad disgyblion.
- Adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd gwahaniaethu yn y dosbarth a chreu cynlluniau taith ddysgu pwrpasol ar gyfer pob disgybl ADY.
- Creu grwpiau dosbarth targed ADY. Sesiynau addysgu manwl i'w gweithredu ym mhob dosbarth yn seiliedig ar ddatblygu sgiliau penodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd
- Staff ac ALENCo i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer disgyblion B1,3 a 5. ALENCo i weithio mewn partneriaeth gyda'n hysgolion clwstwr i sicrhau cysondeb a chynnydd.
- Adolygu ymyraethau i sicrhau tystiolaeth glir o effaith a sicrhau bod addysgu o safon yn cael ei dargedu i fodloni anghenion unigol disgyblion. ALENCo i greu map darpariaeth i fesur effaith a chynnydd.

Mae pob ymwelydd yn arwyddo i mewn ac allan yn y swyddfa.

Mae pob ymwelydd yn gwisgo bathodynnau adnabod wrth ymweld â'r ysgol.

Arddangosir nodyn wrth y brif fynedfa yn annog rhieni a gwarcheidwaid i arwyddo yn y swyddfa os ydynt yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol.

Mae pob aelod o'r staff wedi derbyn cymhwyster Cymorth Cyntaf a dau aelod o staff wedi derbyn cymhwyster Cymorth Cyntaf yn y Gwaith. Cedwir blychau cymorth cyntaf mewn amryw safleoedd o amgylch yr ysgol.

Sicrha'r ysgol bod plant a rhieni gydag anabledd yn medru symud yn gyfforddus o gwmpas yr adeilad. Mae ardaloedd parcio penodol i rieni ag anabledd. Marciwyd ardaloedd o gwmpas yr iard er diogelwch i blant ac oedolion gydag anawsterau gweld.

Mae gan yr ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch sy'n hysbys i bawb.

Mae diogelwch y disgyblion yn holl bwysig. Mae clo diogelwch ar holl ddrysau allanol prif adeiladau'r ysgol ac mae disgwyl i ymwelwyr fynd i'r brif fynedfa wrth ddod i'r ysgol. Mae prif gatiau'r ysgol yn cael eu cloi rhwng 9.00yb a 3.20yh.

Rydyn ni'n darparu Bws Cerdded sy'n gadael Heol Berry am 8.50 bob bore.

Mae system 'gollwng eich plentyn' yn y bore rhwng 8.50 a 9.00 lle anogir rhieni i adael eu plant gydag aelodau o staff wrth glwyd yr ysgol.

# 2023-24

## Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu ein blaenoriaethau ymhellach yn 2023-24 ac yn canolbwyntio ar wireddu ein gweledigaeth a sicrhau ein bod yn darparu addysg o'r radd flaenaf i'n disgyblion.

| BLAENORIAETHAU | |
|---|---|
| **Cwricwlwm** | Sicrhau bod sgiliau trawsgwricwlaidd yn cael eu gwreiddio yng ngweithgareddau taith ddysgu pob dosbarth. Gweithredu rhaglen taith ddysgu ddyddiol gan gynnwys sesiynau ffocws dysgu dwys a thasgau annibynnol. |
| | Datblygu ymhellach, cydweithio clwstwr. Sicrhau bod y mapiau cwricwlwm wedi'u cwblhau a'u mireinio. Yn benodol, rhwng CC3 cynradd ac uwchradd CC3 gan sicrhau bod dilyniant yn amlwg. |
| | Mireinio a datblygu ein cynllunio Mathemateg a Rhifedd – rhannu'r continwwm dysgu Rhifedd gyda'r ysgolion yn y clwstwr er mwyn sicrhau dilyniant ar draws y clwstwr. |
| | Addasu a mireinio ein gweithdrefnau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Gweithredu'r cynllun clwstwr a sicrhau bod y cyfleoedd yn cael eu mapio'n glir ar draws y meysydd dysgu a phrofiad ac ar draws y continwwm dysgu |



| BLAENORIAETHAU | |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth** | Mireinio ein defnydd o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth - cyfarfodydd rheoli ac adolygu bob pythefnos, datblygu pasbort proffesiynol staff, a holiaduron hunanarfarnu ar gyfer staff a chymorthyddion. |
| | Sefydlu grwpiau ymholi proffesiynol staff gan gynnwys athrawon a chynorthwywyr addysgu. Sicrhau bod pob aelod o staff yn cydweithio ac yn cynnal ymchwil personol sy'n gysylltiedig â'u cwestiwn ymchwil er mwyn meithrin cydweithio ac arloesi. Creu rhwydwaith Ymholiad Proffesiynol GYG. |
| | Ymgorffori prosesau hunanarfarnu effeithiol ymhellach. Datblygu'r prosesau ymhellach gan ddefnyddio fframwaith Estyn a'u halinio â'r fframwaith gwerthuso a gwella. |
| | Sefydlu strategaeth "Prosiectau Arloesi". Cynnwys pob un o'r staff mewn gweithgareddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad eu gwybodaeth broffesiynol, eu dealltwriaeth, a'u medrau addysgu ac arwain |
| | Datblygu ymhellach senedd Llais yr ysgol i holl ddisgyblion Blwyddyn 1 i Flwyddyn 6. Disgyblion Blwyddyn 6 i arwain y trafodaethau. Cynllunio strategol i gyd-fynd â blaenoriaethau CGY. |
| **Dysgu ac Addysgu** | Datblygu ymhellach, dulliau o fesur cynnydd disgyblion gan ddefnyddio'r egwyddorion cynnydd ym mhob maes dysgu |
| | Sefydlu 'Tasgau Ymholi' i'w cwblhau ar ddiwedd bloc o waith er mwyn mesur cynnydd. Y disgyblion i gymhwyso'r dysgu sydd wedi'i feithrin dros y tymor mewn cyd-destunau diddorol ac ystyrlon ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. |
| | Datblygu sgiliau darllen y disgyblion. Sefydlu strategaeth carwsél darllen dyddiol i ddatblygu sgiliau darllen, gwrando a siarad, yn ogystal â dysgu annibynnol y disgyblion. |
| **Llesiant, tegwch a chynhwysiant** | Datblygu ymhellach ymwybyddiaeth y disgyblion o degwch, cydraddoldeb, cynaladwyedd a hawliau plant. Prosiectau dysgu cyfoethog trawsgwricwlaidd i'w gweithredu'n dymhorol. |
| | Ymgorffori'r strategaeth Parch, Parodrwydd, Perthyn ymhellach er mwyn sicrhau continwwm lles effeithiol ac i hyrwyddo'r pontio gydag ysgol Plasmawr. Trwy wasanaethau a diwrnodau agored, y dosbarthiadau i rannu gwybodaeth gyda chymuned ehangach yr ysgol. |
| | Datblygu strategaethau a phrosiectau lles ymhellach o ganlyniad i'n diwrnodau iechyd a lles ysgol gyfan. Grwpiau senedd Llais i greu fideo hyfforddi yoga, gweithdai meddwlgarwch a fideo strategaethau ymlacio dosbarth. Gwerthuso effaith y prosiectau. |
| | Parhau i weithredu a gwerthuso ymyraethau cymorth grŵp targed. Adolygu prosesau a gweithdrefnau yn rheolaidd, Adolygiadau Dysgu Bach i'w gweithredu er mwyn cryfhau'r dulliau asesu / mesur cynnydd. |

## 2023-24

**Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi a'ch plant dros y flwyddyn academaidd nesaf.**

**Diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.**

**Catrin Evans**
**Pennaeth**

Ysgol Gwaelod y Garth
Main Road, Gwaelod y Garth
Caerdydd, CF159HJ

www.gwaelodygarth.co.uk
@gwaelod

Design: elfen.co.uk